



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

---

**TITLE** Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru)

**DATE** 3 Medi 2020

**BY** Vaughan Gething MS, Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi gwneud darpariaeth i sicrhau bod teithwyr sy'n cyrraedd y Deyrnas Unedig o wledydd tramor yn gorfod hunanynysu am 14 diwrnod, er mwyn atal y coronafeirws rhag lledaenu ymhellach. Daeth y cyfyngiadau hyn i rym ddydd Llun 8 Mehefin 2020.

Ar 10 Gorffennaf, diwygiodd Llywodraeth Cymru y Rheoliadau i gyflwyno eithriadau i'r gofyniad i ynysu ar gyfer rhestr o wledydd a thiriogaethau, ac ystod gyfyngedig o bobl mewn sectorau neu gyflogaeth arbenigol a allai fod wedi'u heithrio rhag y gofyniad i ynysu neu rhag rhai o ddarpariaethau'r gofynion ynghylch gwybodaeth teithwyr.

Ers hynny, mae'r rheoliadau hyn wedi'u hadolygu'n gyson ac mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio.

Rwyf hefyd wedi ystyried y cyngor clir gan adroddiad y Ganolfan Biddiogelwch ar y Cyd (JBC) bod teithio o'r gwledydd a'r tiriogaethau canlynol yn risg i iechyd y cyhoedd. Rwyf wedi penderfynu dileu Portiwgal tir mawr (bydd yr Azores a Madeira yn parhau i fod wedi'u heithrio), Gibraltar, Gwlad Pwynesia Ffrainc ac ynysoedd Groeg Mykonos, Zakynthos, Lesvos, Paros ac Antiparos a Crete o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau eithriedig

Daw'r newidiadau hyn i rym am 04:00 ddydd Gwener 4 Medi, a byddaf yn gosod y Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Senedd yfory.

Mae'r camau hyn yn cael eu cymryd o ganlyniad i nifer fawr o achosion o glefyd coronaidd y galon wedi'u mewnforio i Gymru gan dwristiaid sy'n dychwelyd o ynysoedd Groeg, yn arbennig. Yn ystod yr wythnos diwethaf, cadarnhawyd dros 20 o achosion mewn teithwyr ar un awyren o Zante i Gaerdydd

Caiff y datganiad hwn ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau. Os bydd yr Aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.